**Y Tad Rhadlon**

Ling-di-longian fysai'r modd mwyaf bonheddig
Doedd neb yn rhedeg
Yn y Dwyrain Canol os oedd yn meddu
ar fymryn o foesgarwch

Eithr rhedeg wnest Ti, y Tad, at yr Un
A gymerodd arno'i hun fochyndra,
Gan ymadael â'r cylchdro: at yr Un
A fu'n gwasgaru, er yn sychedig, Dy holl dda.

A chest Ti'n ôl o'r tolc a'r twll
Fab.  Amddifad a droes
Yn ôl o'r lloc a'r llaca
Wedi afradu Dy win oll.  Tua'th winllan daeth.

Dy holl wedyn a arlwyaist
Ar gyfer Dy hoff Fyd;
Ac ar y Ford – Dy holl Fab, er mwyn
I ninnau hefyd, o'i gyd-fwyta, fod mewn pryd.

***Bobi Jones***